



Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Chwarae Rhan Pwy Wnaeth Adeiladu'r Ddyfrbont Nodiadau Canllaw i Athrawon

## Amcanion Dysgu

- I ddarganfod y bobl wnaeth wneud Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn bosibl
- I ddysgu am wahanol rolau a swyddi adeiladwyr Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte
- I ddatblygu sgiliau ymchwilio, ymchwil a chwarae rhan

## Adnoddau

- Tafenni ffeithiau cymeriadau
- Templed cerdyn chwarae rhan

## Cyfarwyddiadau Gweithgaredd

Mae dysgwyr yn defnyddio'r daflen ffeithiau cymeriad i ymchwilio cymeriad o'r gorffennol oedd wedi helpu i wneud i Ddyfrbont a Chamlas Pontcysyllte ddigwydd. Gan ddefnyddio'r templed a ddarperir, maent yn creu eu cerdyn chwarae rôl eu hunain yn defnyddio'r daflen ffeithiau a'u hymchwil. Yna maent yn derbyn rôl eu cymeriad ac yn cyfweld y naill a'r llall yn defnyddio'r daflen gwestiynau chwarae rhan i ganfod am y bobl hanesyddol eraill sy'n cymryd rhan.



**DS** Mae nifer o'r cymeriadau hanesyddol a ddefnyddir yn y daflen ffeithiau hon yn bobl go iawn oedd yn ymwneud ag adeiladu'r ddyfrbont a'r gamlas; William Jessop, Thomas Telford, William Hazeldine, John Simpson. Mae'r gweddill yn ffuglen ond maent wedi eu creu yn defnyddio tystiolaeth hanesyddol.

### Syniadau Gweithgareddau Cychwynnol:

Ymchwilio ystyr y geiriau canlynol:  
**peiriannydd, saer maen, gwlanen, haearnfeistr, saer melin, ffwdri, gefail.**



Ymchwilio'r cymeriadau yn y daflen ffeithiau chwarae rhan ac ymgymryd â'ch ymchwil eich hun.

### Syniadau Gweithgareddau Eraill:

**Trafod:** Pam bod yna cyn lleied o fenywod yn cael eu cydnabod yn bwysig ar gyfer adeiladu Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte?

**Trafod:** Pa rolau sydd gan fenywod mewn gwyddoniaeth a thechnoleg heddiw o'i gymharu â'r gorffennol?



### Briff ar gyfer Dysgwyr:



- Dewiswch un cymeriad yna creu cerdyn chwarae rhan iddyn nhw, yn defnyddio'r templed a ddarperir, yn seiliedig ar y ffeil ffaith cymeriad a'ch ymchwil chi eich hun.
- Cymerwch rôl eich cymeriad a chymryd eich tro i gyfweld y naill a'r llall mewn cymeriad.
- Gwisgwch fel eich cymeriad neu defnyddiwch bropiau.
- Wedyn, trafodwch fel dosbarth pam bod y bobl hyn yn bwysig ar gyfer adeiladu Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte.





# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## William Jessop

### Pwy oedd William?

Prif beiriannydd

Ganwyd William Jessop ar Ionawr 23 1745 yn Plymouth. Yn yr ysgol roedd yn dda gyda mathemateg a gwyddoniaeth. Fe ddaeth yn beiriannydd camlas pwysicaf Prydain.

Yn 1791 cafodd ei gyflogi i oruchwylio'r gwaith o gynllunio ac adeiladu Camlas Ellesmere, gan gynnwys Dyfrbont Pontcysyllte. Ef oedd rheolwr cyffredinol y prosiect ac roedd yn gyfrifol am Thomas Telford. Roedd ganddynt berthynas waith dda ac roeddent yn gweithio gyda'i gilydd ar nifer o brosiectau eraill gan gynnwys Camlas Caledonia yn Yr Alban.



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am William?

Roedd ei dad, a oedd yn saer llongau llyngesol, yn ffrind da i'r beiriannydd adnabyddus John Smeaton. Pan fu farw tad William yn 1761, fe ddaeth Smeaton yn warcheidwad a thiwtor i William, ac wedi hynny daeth William yn gynorthwydd iddo am nifer o flynyddoedd.



Pan ddaeth yn beiriannydd camlas, ei brosiect mawr cyntaf oedd Camlas Fawr Iwerddon.

Priododd William â Sarah Sawyer yn 1790 a chawsant ddau fab, Josias a William. Daeth Josias yn beiriannydd camlas hefyd, wedi ei hyfforddi gan ei dad a bu'n gweithio gydag ef ar rai prosiectau.

Daeth William yn Faer Newark yn Swydd Nottingham ar ddau achlysur pan oedd yn byw yno rhwng 1784 a 1805.

Dywedodd Gwyddoniadur Caeredin fod Jessop *"Yn gyfan gwbl rydd o holl eiddigedd a chenfigen cystadleuwyr proffesiynol, roedd ei weithredoedd...yn rhydd o holl rwysg a chyfriniaeth, ac nid oedd unigolion o rinwedd fyth yn methu ag ennill ei gyfeillgarwch a'i anogaeth."*

Daeth yn un o aelodau cynharaf Cymdeithas y Peirianwyr Sifil.



# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## Thomas Telford

### Pwy oedd Thomas?

**Pensaer a pheiriannydd**

Ganwyd Thomas Telford yn Yr Alban yn 1757. Roedd ei dad yn fugail. Yn dair ar ddeg oed cafodd Thomas brentisiaeth fel saer maen. Yn 1786 fe symudodd i'r Amwythig i ddod yn bensaer. Fe ddaeth yn Syrfëwr y Sir ar gyfer Swydd Amwythig ac roedd yn gyfrifol am bontydd ac adeiladau.

Yn 1793 cafodd ei benodi'n beiriannydd cyffredinol i gynllunio ac adeiladu'r gamlas, gan weithio o dan William Jessop. Nid oedd neb wedi ceisio adeiladu dyfrbontydd mor uchel â'r Waun a Phontcysyllte o'r blaen ac felly roedd rhaid iddo ef a Jessop fod yn ddyfeisgar iawn o ran eu cynlluniau.



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am Thomas?

Ni briododd Thomas ac ni chafodd unrhyw blant. Roedd wrth ei fodd â barddoniaeth, a barddoniaeth oedd ei gyhoeddiadau hysbys cynharaf. Fe ysgrifennodd o leiaf 12 yn ystod ei oes.



Tra'n gweithio ar Ddyfrbont a Chamlas Pontcysyllte roedd yn derbyn pum gini y dydd, yn ogystal â threuliau (mae gini yn 21 swllt h.y. £1.05c). Roedd angen sgiliau arwain gwych a chysylltiadau da arno i reoli'r gwaith adeiladu. Aeth ati i gynnwys ffrindiau medrus gan gynnwys Matthew Davidson, peiriannydd arall yr oedd yn ei adnabod o'r Alban, y meistr haearn William Hazeldine a'r saer maen John Simpson. Fe aethant ymlaen i gydweithio ar lawer o brosiectau eraill.

Fe aeth ymlaen i gynllunio ac adeiladu nifer o ffyrdd a phontydd pwysig yng Ngogledd Cymru gan gynnwys yr A5 a Phont Menai. Roedd Telford yn gyfrifol am adeiladu dros 900 milltir o ffyrdd a 1,000 o bontydd ar draws y DU a thu hwnt.

Pan ddaeth yn llwyddiannus cafodd lysenwau fel 'Pontifex Maximus' (y gorau o'r holl adeiladwyr pontydd) a "Cholosws y Ffyrdd".

Cafodd ei anrhydeddu fel Cymrawd y Gymdeithas Frenhinol a Llywydd Cyntaf Sefydliad y Peirianwyr Sifil.



# Taflen Ffeithiau Cymeriad


## William Hazeldine

### Pwy oedd William?

#### Meistr Haearn

**Ganwyd William Hazeldine yn Swydd Amwythig yn 1763. Dechreuodd weithio fel saer melin ond aeth yn ei flaen i ddod yn feistr haearn adnabyddus.**

Fe sefydlodd Waith Haearn Plas Kynaston yng Nghefn Mawr ger Pontcysyllte yn 1800 yn y gobaith o gael y cytundeb i gyflenwi haearn ar gyfer y dyfrbontydd. Nid oedd haearn wedi ei ddefnyddio ar gyfer dyfrbontydd o'r blaen ond roedd Thomas Telford yn ymddiried ynddo a chafodd y contract i wneud y cafnau a'r bwâu o haearn bwrw.



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am William?

Seiri melinau oedd ei dad a'i ewythr ac roeddent yn adeiladu ac yn atgyweirio melinau. Roedd perthnasau eraill iddo yn rhedeg gefail. Daeth i weithio fel prentis i'w ewythr, lle dysgodd am beirianwaith, arlunio technegol, gwaith coed, adeiladu a thirfesur. Roedd hefyd yn gweithio yn yr efail.

Yn 1787 fe agorodd ei ffowndri haearn bach cyntaf mewn partneriaeth gyda chlociwr. Yn ddiweddarach fe sefydlodd ffowndri Coleham yn yr Amwythig, a ddaeth yn un o'r rhai mwyaf yn y wlad.

Roedd yn dal ac roedd ganddo ysgwyddau llydan ac roedd yn hynod o gryf. Roedd yn ddyfeisgar iawn ond hefyd roedd yn rhoi llawer o sylw i fanylder. Cafodd y llysenw "Myrddin" o ganlyniad i'w allu, oedd bron yn hudol, i weithio gyda haearn.

Fe briododd Miss Brayne a chawsant un ferch. Fe fu'n Faer yr Amwythig ddwywaith rhwng 1835 a 1836.

Yn 1788 fe gyfarfu Thomas Telford a John Simpson, saer maen. Fe ddaeth y tri yn ffrindiau gan gydweithio ar nifer o brosiectau.

Yn dilyn Pontcysyllte fe ddarparodd waith haearn i nifer o brosiectau eraill Telford gan gynnwys Pontydd Menai a Chonwy, Pont Craigellachie yn Yr Alban a Phont Waterloo ym Metws-y-coed. Roedd ei arbenigedd mewn gweithgynhyrchu a phrofi darnau mawr o haearn yn bwysig iawn i'r prosiectau hyn. Roedd ei ffowndriau ymhlith y canolfannau pwysicaf a'r rhai mwyaf datblygedig yn dechnolegol ar gyfer adeiladu pontydd haearn ym Mhrydain yn y cyfnod.



# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## Ned Green

### Pwy oedd Ned?

Nafi neu 'Lywiwr'

Ganwyd Ned Green yn Sir Amwythig yn Lloegr yn 1765. Gweithiodd fel nafi o pan oedd yn 10 oed. Roedd nafi - byr am 'navigators' yn y Saesneg - yn labrwr dwylo a oedd yn cloddio camlesi gyda'u dwylo gan weithio gyda chaib, rhaw a berfa.

Yn 1804 roedd Ned yn un o tua 500 o nafis a oedd yn gweithio yn ardal Pontcysyllte. Roedd yn waith araf gan fod rhaid iddynt adeiladu arglawdd anferth 27.5 metr o uchder yn arwain at y ddyfrbont!



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am Ned?



Roedd Ned yn gweithio gyda chriw o nafis a oedd yn symud o amgylch y wlad o un prosiect camlas i'r llall. Roeddent yn byw mewn gwerylloedd dros dro a barics neu'n lletya gyda theuluoedd lleol.

Roedd yn gweithio wythnos 48 awr ym mhob tywydd. Roedd yn waith caled iawn ac roedd angen i Ned fod yn gryf a meddu ar lawer o nerth. Mewn pridd da fe allai symud 9 metr ciwbig o bridd mewn diwrnod. Yn ogystal â chloddio'r sianel ar gyfer y gamlas, roedd y nafis hefyd yn helpu i adeiladu waliau, pwdlo clai ar wely'r gamlas i'w alluogi i ddal dŵr a chwythu drwy greigiau pan oedd angen hynny.

Roedd Ned yn un o'r nafis a fynychodd y seremoni agoriadol ar gyfer Dyfrbont Pontcysyllte ac roedd yn yr orymdaith o gychod a groesodd y ddyfrbont am y tro cyntaf.

Roedd Ned yn briod ag Emma ac roedd ganddynt saith o blant. Roedd yn ennill 23 swllt (£1.15c) yr wythnos.

Unwaith roedd y camlesi wedi eu gorffen aeth y nafis i adeiladu rheilffyrdd a ffyrdd. Dywedodd Mrs Garnett o Gymdeithas Genhadaeth y Nafis: "Yn sicr nid oes unrhyw ddynion yn y byd i gyd yn gwella eu gwlad fel y mae'r Nafis yn ei wneud yn Lloegr. Fe fydd eu gwaith yn parhau am amser maith, ac os yw'r byd yn parhau mor hir â hynny fe ddaw pobl am gannoedd o flynyddoedd i edrych a rhyfeddu at yr hyn maent wedi ei wneud."



# Taflen Ffeithiau Cymeriad


## Robert Davies

### Pwy oedd Robert?

#### Gweithiwr Ffowndri

Ganwyd Robert Davies yn 1770 yn Ne Cymru ond daeth i chwilio am waith i Ogledd Cymru pan agorodd y gweithfeydd haearn.

Cafodd ei gyflogi fel gweithiwr ffowndri yng Ngwaith Haearn Plas Kynaston. Roedd yn rhan o dîm a wnaeth yr haearn bwrw ar gyfer y cafnau, bwâu a'r bolltau ar gyfer Dyfrbont Pontcysyllte.



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am Robert?



Fe ddechreuodd weithio pan oedd yn 9 mlwydd oed fel y gallai ennill arian ar gyfer ei deulu. Ei swydd gyntaf oedd ysgubwr mewn gefail. Roedd yn rhaid iddo ysgubo'r llwch a darnau o fetel o lawr yr efail i'w chadw'n lân. Pan oedd yn hŷn roedd yn helpu i gludo'r haearn i'r efail hefyd. Ni allai ddarllen nac ysgrifennu'n dda iawn gan na aeth i'r ysgol am gyfnod hir.

Pan symudodd i Blas Kynaston roedd yn gweithio fel gweithiwr ffowndri. Ei waith oedd tywallt y metel tawdd o'r ffwrnais i fowldiau i wneud cafnau haearn bwrw ar gyfer y ddyfrbont.

Roedd y ffwrnais yn eithriadol o boeth ac roedd wastad yn chwysu ac yn sychedig. Roedd yn yfed tua 2 litr o gwrw a thua 4.5 litr o ddŵr bob dydd.

Roedd yn rhaid iddo fod yn gryf iawn yn gorfforol ond hefyd yn ofalus gyda'r haearn tawdd gan ei fod yn eithriadol o boeth. Fe gafodd ddamwain unwaith a llosgodd ei wyneb ac roedd i ffwrdd o'r gwaith am nifer o fisoedd.

Roedd yn cael ei dalu yn ôl y tunelli o haearn a gynhyrchwyd ac roedd yn ennill tua 30 swllt (£1.50) yr wythnos ar gyfartaledd.

Roedd yn byw yng Nghefn Mawr gyda'i wraig Mary a phedwar o blant.

# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## John Simpson

### Pwy oedd John?

Prif Saer Maen

Ganwyd John Simpson yn 1755 yn Midlothian, Yr Alban. Hyfforddodd fel saer maen gan ddysgu torri cerrig yn flociau ar gyfer adeiladau a phontydd.

O 1793 roedd yn cael ei hyfforddi i adeiladu rhai o'r pontydd camlas a'r ddyfrbont yn Y Waun. Yn 1800 fel prif saer maen daeth yn gyfrifol am adeiladu colofnau carreg Dyfrbont Pontcysyllte. Pileri o flociau carreg yw'r colofnau, sy'n gadarn at hanner ffordd ac yna yn wag uwchben hynny ac maent yn cefnogi'r cafnau haearn sy'n cludo'r gamlas ar draws y ddyfrbont.



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am John?

Fe symudodd i'r Amwythig yn 1790 i oruchwylio ailadeiladu Eglwys Sant Chad. Roedd yn briod â Jane ac fe gawsant efeilliaid, sef dwy ferch. Yn drist iawn fe fu farw un pan oedd yn fabi, ond fe gawsant ferch arall ddwy flynedd yn ddiweddarach.



Yn yr Amwythig fe gyfarfu'r peiriannydd Thomas Telford a'r meistr haearn William Hazeldine. Fe ddaeth y tri ohonynt yn ffrindiau. Fe weithiodd ar nifer o brosiectau gyda hwy gan gynnwys Dyfrbont Pontcysyllte.

Roedd yn gyfrifol am sicrhau fod yr holl waith carreg yn cael ei wneud yn iawn. Roedd hon yn swydd a oedd yn gofyn am fedrusrwydd ac roedd yn rheoli'r holl seiri meini oedd yn ymwneud ag adeiladu'r ddyfrbont, y rhai yn chwarel Cefn Mawr oedd yn torri'r cerrig o'r chwarel yn flociau ar gyfer eu cludo i lawr i'r safle adeiladu, a'r rhai a oedd yn torri'r blociau i siâp ger y ddyfrbont. Roedd yn rhaid i'r blociau o gerrig gael eu torri'n union fel y byddent yn gorwedd yn eu lle yn berffaith, yn dilyn cynllun y peirianwyr.

Ar ôl Pontcysyllte fe barhaodd i weithio gyda Telford, gan adeiladu ffyrdd a sawl harbwr a phier i ddyluniadau Telford, gan gynnwys gwaith cerrig ar gyfer Pont Dunkeld dros Afon Tay, sef pont fwyaf Yr Alban.

Cafodd ei ddisgrifio gan Telford fel "*trysor o dalentau a gonestrwydd*" ac fel "*saer maen enwog*".



# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## Abraham Jones

### Pwy oedd Abraham?

#### Chwarelwr

**Abraham Jones was born in 1775 in Trevor. He worked as a quarryman at Cefn Mawr sandstone quarry.**

Roedd carreg o'r chwarel hon yn cael ei ddefnyddio i adeiladu'r colofnau ar gyfer Dyfrbontydd Pontcysyllte a'r Waun. Roedd tywodfaen Cefn o ansawdd da iawn, roedd yn para'n dda ac yn gryf ac roedd modd ei dorri'n union ac felly roedd yn ddelfrydol ar gyfer adeiladu'r dyfrbontydd.



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am Abraham?

Roedd yn gweithio gyda chriw o chwarelwyr a oedd hefyd yn ffrindiau iddo. Fe gâi gyflog o 16 swllt yr wythnos (80c). Roedd y gwaith yn cychwyn am 7.30am ac yn gorffen am 5.30pm. Roedd yn waith caled iawn a chorfforol ac roedd yn rhaid iddo fod yn gryf iawn a meddu ar lawer o nerth. Roedd yn waith peryglus hefyd gan fod yna berygl bob amser y gallai cerrig ddisgyn.



Roeddent yn gweithio ar wyneb y chwarel gan ddefnyddio caib, lletem, bar a chûn. Roeddent yn torri i mewn i'r graig â chûn ac yn drilio i greu craciau ac yna yn taro'r lletemau gyda morthwyl i mewn i'r craciau gan hollti'r blociau enfawr o garreg o'r clogwyni.

Weithiau roedd rhaid i Abraham ddrilio tyllau yn wyneb y graig i osod powdwr tanio (powdwr gwn) er mwyn chwythu'r graig mewn darnau mawr. Fe allai gymryd hyd at 8 awr i ddrilio twll unigol gyda llaw ar gyfer y powdwr tanio.

Roedd seiri meini yn torri'r garreg o'r chwarel yn flociau fel y gellir ei gludo drwy dramffordd i lawr i'r ddyfrbont.

Nid oedd Abraham yn gallu darllen nac ysgrifennu ei enw. Roedd wedi gadael yr ysgol i ddechrau gweithio pan oedd yn 8 mlwydd oed.

Roedd yn briod â Katherine ac roedd ganddynt bedwar o blant. Abe oedd ei ffrindiau yn ei alw.

Ar ôl bod yn gweithio roedd yn mwynhau cyfarfod ei ffrindiau a chwarae coets, gêm lle roedd cylchoedd o raffau neu fetel yn cael eu taflu ar bolion yn y ddaear.





# Taflen Ffeithiau Cymeriad

## Jenni Davies

### Pwy oedd Jenni?

Gwlanennwr Cymreig

**Ganwyd Jenni Davies yn Llangollen yn 1750. Roedd yn gweithio gyda'i chworydd ym Melin Mile End yn Llangollen a oedd yn gwneud gwlanen o wllan defaid.**

Roedd y wlanen yn cael ei defnyddio'n bennaf i wneud dillad, carpedi a dillad swyddogol ond roedd hefyd yn cael ei defnyddio i adeiladu Dyfrbont Pontcysyllte. Roedd uniadau'r bwâu haearn yn cael eu llenwi gyda gwlanen a phlwm gwyn i'w galluogi i ddal dŵr, fel nad oedd y dŵr yn gollwng o'r gamlas. Roedd hwn yn ddull newydd ac roedd y wlanen yn hanfodol er mwyn iddo weithio.



### Beth arall rydym ni'n ei wybod am Jenni?

Roedd gan Jenni swyddi gwahanol yn y felin. Weithiau roedd yn helpu i olchi'r gwllan amrwd ond nid oedd yn hoff iawn o hynny gan eu bod yn defnyddio cymysgedd o wrin a sebon, a oedd yn ddrewllyd iawn! Roedd hefyd yn arfer ymestyn y gwllan ar fachau deintur y tu allan i'r felin er mwyn iddo sychu. Roedd y gwllan yn eithaf trwm pan roedd yn wlyb ac felly roedd rhaid i Jenni fod yn gryf i'w gario a'i ymestyn dros y fframiau i'w sychu.



Roedd y ffatri yn cynhyrchu hyd at 15,000 llath (13,700 metr) o wlanen bob wythnos. Roedd Jenni yn ennill 7 swllt (£35c) yr wythnos.

Roedd Jenni yn byw yn Llangollen gyda'i gŵr a phump o blant. Roedd ei dwy chwaer yn byw gerllaw gyda'u teuluoedd. Roedd ei brodyr hŷn a'i neiaint yn gweithio yn y ffowndri haearn yng Nghefn Mawr.

Ar ddiwedd y diwrnod gwaith roedd Jenni yn coginio, glanhau ac yn trwsio, gan ofalu am ei theulu a'i chartref. Os oedd ganddi amser hoffai ddysgu ei phlant i ddarllen y Beibl. Ar ddyddiau Sul roedd yn mynd i'r capel gyda'i theulu ac yna roedd yn cyfarfod ei chworydd a'u teuluoedd wrth yr afon.



Pontcysyllte  
Safle Treftadaeth Y Byd  
World Heritage Site



Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Syniadau am Gwestiynau ar gyfer Chwarae Rôl

Gallech ofyn...

Enw ac unrhyw lysenwau

Lle cawsoch eich geni?

O lle rydych yn dod?

Teulu/frindiau?

Beth yw eich swydd?

Cyflog/enillion?

Pa sgiliau yr ydych eu hangen ar gyfer eich swydd?

Pa sgiliau eraill sydd gennych chi?

Beth wnaethoch chi ar gyfer y ddyfrbont a'r gamlas?





Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Templed Cerdyn Chwarae Rhan

**Enw:**

Pryd gawsoch chi eich geni?	
Faint oedd eich oed chi pan agorwyd Dyfrbont Pontcysyllte yn 1805?	
O ble ydych chi'n dod?	
Disgrifiwch eich teulu a'ch ffrindiau	

**Eich Swydd:**

Beth yw eich gwaith chi?

Pa sgiliau ydych chi eu hangen ar gyfer eich swydd?

Beth wnaethoch chi ei wneud ar gyfer adeiladu Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte?

Ffaith ddiddorol amdanoch chi